

Brig y Goeden



Y Gôli 'Nunlle


ALAN MACDONALD



Y Gôli o 'Nunlle

ALAN MACDONALD

Lluniau gan Jane Cope



DRAKE



1

Y Gêm Derfynol

A dyna fe, y chwiban terfynol. Mae Crwydraid Ffosaled wedi ennill! Y gêm gwpan gyntaf yn Stadiwm y Mileniwm yn eu hanes! Mae'r chwaraewyr yn dawnsio o gwmpas y cae gan gofleidio ei gilydd. Mae'r dorf (tri rhiant a phlentyn mewn cadair wthio) yn mynd yn wyllt.

*Mae Gruff Llwyd, arwr tair-gôl
Ffosaled, yn cael ei gario'n uchel ar
ysgwyddau ei gyd-chwaraewyr. Mae e'n
codi'r cwpan at y dorf... dyma olygfeydd
anhygoel!*



Gruff Llwyd ydw i, rhag ofn eich bod
chi heb ddyfalu.

Dwi'n sylwebu fel hyn yn fy mhen
trwy'r amser. Yn yr ysgol, mewn bws, hyd
yn oed dan ddŵr yn y bath.

Ond roedd y sylwebaeth yma yn wahanol. Nid breuddwyd mohoni. Roedd Crwydraid Ffosaled yn wir ar fin chwarae yn ein gêm derfynol gynta yn Stadiwm y Mileniwm ddydd Sadwrn.



Iawn, doedd hi ddim yn Stadiwm y Mileniwm. Roedd hi ym Mharc y Mileniwm. Ac iawn, does gan y cae ym Mharc y Mileniwm bron dim gwair ac mae pant yn ei ganol fel banana. Ond doedd hynny'n poeni dim arna i. Roedden ni yng ngêm derfynol y cwpan ac roedden i'n perffeithio fy sylwebaeth ar gyfer dydd Sadwrn.

Wrth gwrs fyddai e ddim yn gorffen fel yna mewn gwirionedd. Allen ni ddim ennill a dweud y gwir. Roedden ni'n chwarae yn erbyn Sêr y Cwm yn y gêm derfynol.



Roedden nhw wedi ennill y cwpan dair gwaith yn olynol. Gwyddwn ym mên fy esgyrn nad oedd gennym obaith yn eu herbyn. Bydden ni'n lwcus i sgorio un gôl. Ond wedyn allech chi fyth bod yn siwr beth allai ddigwydd mewn gêm bêldroed.

Pwy fyddai wedi disgwyl i Siorts Llac
ymddangos o 'nunlle?





2

Siorts Llac

Nos Iau oedd hi, dau ddiwrnod cyn y gêm derfynol. Roedden ni i gyd wedi cwrdd i ymarfer draw ym Mharc y Mileniwm.

Roedd Dad wedi ein galw ynghyd ar gyfer sgwrs tîm. Yn ôl ei arfer, roedd e'n gwisgo ei dracwisg gwyrdd â bathodyn Cymru ar y boced.

“Nawr mae pob un ohonom yn sylweddoli bod dydd Sadwrn yn gêm fawr inni,” meddai. “Mae ein Gruff ni wedi mynd i’r gwely yn gwisgo ei ddillad pêldroed bob nos. Dim ond i wneud yn siwr fod e ddim yn colli’r gic gychwynnol.”



Edrychodd pawb arna i a chwerthin. Roeddwn i’n ei gasáu e pan oedd Dad yn gwneud jôcs gwirion amdana i. Weithiau roeddwn i’n dymuno nad fe oedd ein rheolwr.

Aeth Dad yn ei flaen. “Mae gêm derfynol y cwpan yn un arbennig. Mae llawer o blant fyddai'n hoffi gwisgo eich esgidiau chi ddydd Sadwrn. Ond dydyn nhw ddim. Dyma eich cyfle, felly gwnewch y mwya ohono.”

Edrychais o gwmpas. Roedd Jac, Fflip, Sam, Nasser a'r gweddill yn nodio eu pennau. Gallech chi weld eu bod yr un mor frwd â finnau.



Ffurfion ni linell er mwyn ymarfer
saethu yn erbyn Fflip, ein gôli.

“Ow! Gruff! Wyt ti’n ceisio torri fy
mysedd neu beth?” gofynnodd wrth iddo
arbed bollt oddi wrthyf.



Y gwir amdani yw, bod Fflip yn gôli
da. Onibai amdano fe, fydden ni byth
wedi cyrraedd y gêm derfynol. Yn ystod y
gêm gyn-derfynol roedd e wedi gwneud
cyfres o arbediadau anhygoel.

Roedden ni'n arbennig o lwcus yn ystod y gêm honno. Aeth popeth yn iawn inni. Roeddwn i hyd yn oed wedi sgorio gôl hwyr, hwyr â 'mhen-glin a enillodd y gêm inni.

Dywedodd Dad petaen ni wedi bod yn chwarae yn erbyn Lerpwl, byddai'r pyst wedi syrthio'n glec gan anafu hanner eu tîm tra'u bod yn cynhesu.

Dyw Fflip ddim yn fawr iawn ond mae e'n gyflym ac yn ddewr. Mae'n rhaid iddo fe fod oherwydd mae ein hymosod ni yn llawer gwell na'n hamddiffyn.



Heno roedd Fflip mewn hwyliau gwych. Plymiai i arbed ergyd a llamu eto fel Jac yn y boc. Prin yr aeth dim byd heibio iddo.

Mae gwynt oer yn chwythu ar draws
Parc y Mileniwm ar noson o aeaf.
Llithrodd niwlen ysgafn draw o'r afon.



Nasser sylwodd ar fachgen rhyfedd ei
olwg yn ein gwylio o'r tu ôl i'r gôl.

“Hei Gruff,” gwenodd. “Wyt ti wedi
gweld Siorts Llac draw fanna? Wyt ti'n
meddwl ei fod e eisiau gêm?”

Edrychais y tu ôl i'r gôl. Roedd y bachgen yn sefyll i'r naill ochr o'r pyst â phêl dan ei gesail.

Roedd e'n dal ac yn fain fel ffeuen goch. Cyrhaeddai ei siorts enfawr ei bengliniau ac roedden nhw'n siglo yn y gwynt. Uwchben ei siwmpwr wddw uchel werdd, roedd ei glustiau'n sefyll allan fel dolenni jwg. Ac ar ei ben gwisgai het stabl lwyd. Edrychai'n debyg i ffair sborion ar draed.



Erbyn hyn roedd Sam, Jac a'r lleill wedi'i weld e. Dechreuon nhw biffian chwerthin.



“Welwch chi'r wisg bêl-droed yna 'te?”

“Ai dyna wisg oddi cartre Wrecsam?”

“Na, maen rhaid mai un Oxfam yw hi.”

“Gad inni ei arwyddo fe. Efallai y daw e â lwc inni.”

“Ie! Gall e guddio'r bêl yn ei siorts.”

Dywedodd Nasser y jôc olaf yn rhy uchel, achos gwgodd Siorts Llac ac edrych ar y llawr.

“Cau dy ben!” hisiais. “Bydd e’n dy glywed di.”



Ychydig funudau’n ddiweddarach, es i i ’nôl y bêl o’r tu ôl i’r gôl. Roedd Siorts Llac yn dal i sefyll yno. Doedd yr oerfel ddim fel petai’n ei boeni. Pam roedd e’n dal i’n gwyllo, tybed?

“Shwmae,” dywedais. “Wyt ti’n dod o’r ardal yma?”

Cododd ei gap ac amneidio’n ddifrifol. “Arfer bod.”

“Beth ddigwyddodd? Symudaist ti o’r ardal?”

“Mewn ffordd.”



Roedd saib. “Gôli ydw i,” meddai, gan edrych i fyw fy llygaid.

“Wyt ti?” meddwn i.

“Ydw. Dwi’n gôli da.”

“Mae’n siwr dy fod ti. Ond mae gôli gennym ni’n barod. Mae e draw fanna.”

Pwyntiais fy mys tuag at Fflip.
Amneidiodd Siorts Llac eto.



“Dwi’n gôli da,” ailadroddodd, gan sboncio ei bêl ei hun a’i dal yn ei ddwylo mawr gwelw. Pêl-droed ryfedd oedd hi, wedi’i gwneud o ledr brown trwm ac wedi ei chlymu at ei gilydd gan garrai felen.

“Rydyn ni’n chwarae yma ddydd Sadwrn yng ngêm derfynol y cwpan,” dywedais. “Dere i’n gwyllo ni os wyt ti eisiau.”

Amneidiodd Siorts Llac eto.

“Chwaraeais i erioed mewn gêm derfynol. Erioed.” Edrychodd i’r pellter fel petai rhywbeth dros y gorwel. Roedd y niwl wedi dwysáu.



Dywedais, “Wel, mae’r gic gychwynnol am dri. Dere i’n cefnogi ni.” Sylweddolais fy mod i’n crynu. “Mae’n rhaid imi fynd nawr...”

Yr eiliad honno clywais floedd uchel o boen. Rhedais yn ôl at y lleill. Roedd yr ymarfer saethu wedi stopio.



Roedd pawb yn sefyll o gwmpas Fflip. Roedd e'n eistedd ar y llawr. Roedd Dad yn penlinio wrth ei ochr, yn edrych ar ei drwyn a oedd wedi chwyddo'n goch, hyll.

“Aw! Peidiwch â chyffwrdd ynddo!”
llefodd.

“Beth ddigwyddodd?” holais.

“Doeddwn i ddim yn gwybod ei fod yn dod am y croesiad,” meddai Sam.

“Roeddwn i’n neidio i benio’r bêl a daeth Fflip allan. Rhywsut... peniais i fe yn lle’r bêl.”



“Fy mhêl i oedd hi,” cwynodd Fflip.
“Galwais amdani.”

“Fydd e’n iawn?” gofynnais i Dad. “Ar gyfer dydd Sadwrn, dwi’n ei feddwl. Bydd e’n gallu chwarae ddydd Sadwrn oni fydd e?”

Helpodd Dad Fflip i godi i'w draed.
“Yn ôl pob tebyg dim ond clais cas yw e.
Ond a i â fe i'r ysbyty er mwyn iddyn nhw
edrych arno fe. Jest rhag ofn. Mae'n well
i'r gweddill ohonoch chi fynd adre. Mae'n
mynd yn hwyr.”

Ymlwybron ni o'r cae yn ddigalon.



“Un pert, Sam,” dywedais i. “Os nad
ydi Fflip yn gallu chwarae ddydd Sadwrn,
gwynt teg i'n hunig gyfle ni. Hebdo fe,
bydd Sêr y Cwm yn rhoi crasfa inni.”

Wrth inni adael cofiais am Siorts Llac.
Troais 'nôl i ffarwelio ag e. Ond roedd e
wedi mynd, wedi diflannu i mewn i'r niwl.





3

Y Gôli Gaiff y Bai Bob Tro

Roedden ni'n eistedd yn yr ystafell newid mewn tawelwch, pawb yn syllu ar y llawr. Roedd Dad newydd ofyn a oedd unrhyw un eisiau chwarae yn y gôl.

Roedd y newyddion am Fflip yn ddrwg. Roedd yr ysbyty yn dweud fod ei drwyn wedi ei dorri. Doedd dim modd iddo chwarae yng ngêm derfynol y cwpan.

Roedd yn rhaid inni chwarae ein heilydd,
Dewi Di-glem. Rhoddodd Dad e i
chwarae fel cefnwr de. Dyna ble y
byddai'n gwneud lleia o niwed.

Derbynion ni'r newyddion am Fflip fel
petai rhywun wedi marw.



Doedd dim pwynt mewn twyllo ein
hunain ragor. Roedden ni wedi coll'r gêm
derfynol cyn iddi ddechrau.

Gallwn glywed y sylwebaeth yn llifo
trwy fy mhen:

*A dyna un arall! Y tro yma
trwy goesau'r gôl-geidwad. Mae'r gêm
hon yn troi'n gyflafan. 32-0 i
Sêr y Cwm ac mae hanner awr
i fynd! Mae'n rhaid bod
Crwydraid Ffosaled yn dyheu i'r
chwiban olaf gael ei chwythu i
roi diwedd ar eu diflastod.*



Dyna pam doedd neb am wisgo'r siwmpwr werdd. Y gôli sy'n cael y bai bob tro. Fe yw cocyn hitio gweddill y tîm pan maen nhw'n cael crasfa. Dyna pam allwn i mo'i gredu pan siaradodd Dad â fi.

“Gruff, rwy'ti wedi chwarae yn y gôl o'r blaen.”



Codais fy mhen mewn arswyd. “Dim ond chwarae o gwmpas yn y parc oedd hynny. Dwi erioed wedi chwarae mewn gêm go iawn.”

“Mae ’na dro cynta i bopeth. Gallet ti ei gwneud hi.”

“Dad! Dim gobaith! Saethwr ydw i. Byddwn i’n anobeithiol yn y gôl.”

“Wel mae’n rhaid i rywun chwarae yn y gôl. Gwrandewch bawb. Dyw Fflip ddim yn dod. Mae’n rhaid inni chwarae’r tîm gorau posib. Ac os byddwn ni’n colli fydd hynny ddim yn warth. Nawr gofynna i eto- oes unrhyw un yn fodlon chwarae yn y gôl?”



Edrychais o gwmpas gweddill y tîm. Yn crefu arnyn nhw: *Dim fi! Unrhyw un ond fi. Rhywun arall, gwnewch e, plis!*

Wnâi neb edrych arnaf. Rhython nhw ar y llawr fel petaen nhw am gropian o dano fe.



“Iawn. Dyna ni ’te. Gruff, ti sydd yn y gôl ar gyfer yr hanner cyntaf,” meddai Dad. Roedd e’n dechrau gwylltu.

Codais y siwmpwr werdd roedd e wedi ei thafu ata i. Doedd hi ddim yn deg. Ddylai e ddim fod yn rheolwr os oedd e’n mynd i bigo arna i.

Roedd Sêr y Cwm allan ar y cae yn barod yn eu gwisgodd newydd crand. Crysau streipiog coch a gwyn â'u henwau ar y cefn. Yn union fel chwaraewyr proffesiynol.



“Dewch ymlaen y Sêr! Lladdwch chi'r criw yma!” bloeddiodd eu rheolwr o'r ystlys. Roedd mwyafrif eu tîm yn fwy na ni.

Roeddwn i'n adnabod Gari Spenser.
Fe yw sgoriwr uchaf tîm yr ysgol.
Amneidiodd arnaf.

“Shwmae, Gruff! Dyn nhw ddim yn
dy chwarae di yn y gôl ydyn nhw?”



Nodiais yn ddigalon.

“Mae'n *rhaid* ei bod hi'n fain arnoch
chi,” meddai gan rwbio ei ddwylo ynghyd.
Gallech ei weld yn cyfrif y goliau roedd
e'n bwriadu eu sgorio.

Cychwynnodd y gêm. Anfonodd Sêr y
Cwm y bêl yn syth i lawr yr asgell.
Chlirion ni mohoni hi. Daeth pêl uchel
draw. Dechreuais ddod allan amdani hi.
Yna newidiais fy meddwl.



Wrth imi geisio cilio, dyrnwyd y bêl i
gornel y rhwyd. Trodd Gari Spenser
ymaith â'i freichiau'n chwyrlïo fel melin
wynt.

“Gôôôôôôôôô!”

Siglodd Nasser ei ben mewn anghrediniaeth. “Pam na ddest ti allan?”


“Pam na wnest ti ei farcio fe os wyt ti mor wych?” brathais yn ôl.



Am weddill yr hanner cynta amddiffynnon ni'n llym, prin yn mynd heibio i'r llinell hanner. Aeth Sêr y Cwm ddwy ar y blaen ar ôl ugain munud.

Wedi hynny, gwnes ychydig o arbediadau lwcus. A chadwon ni'r sgôr yn isel trwy gadw deg chwaraewr yn ôl a chicio'r bêl i unrhyw le.

Wrth i amser lusgo tuag at yr egwyl, sylwais ar y niwl yn llithro draw o'r afon unwaith eto. Clywais bêl yn sboncio y tu ôl i fi.



A dyna lle'r oedd Siorts Llac.

Roedd e'n gwisgo'r un wisg ag o'r
blaen. Cap llwyd, siwmpwr werdd, siorts
gwyn, llac, anferth.

"Shwmae," dywedais. "Wedi dod i'n
gweld ni'n cael ein maeddu?"

Safai i'r naill ochr o fy ngôl i.

"Ble mae eich gôli?" holodd e.



“Wedi torri ei drwyn. Allai e ddim dod. Dyna pam maen nhw wedi fy rhoi i yn y gôl.”

Amneidiodd yn feddylgar. “Gôli ydw i,” meddai.



“Ie. Dywedaist ti wrthyf y diwrnod o'r blaen.”

“Dwi'n dda.”

“Ond dwyt ti ddim yn chwarae dros ein tîm ni.”

“Ond gallwn i.”

Tynnodd Siorts Llac ei gap stabl a'i ddal yn ei ddwylo. Roedd ei wallt wedi'i dorri yn fyr dros ei ddwy glust â rhaniad yn y canol.

Edrychodd arnaf, ei lygaid yn llawn dyhead.



“Plis. Chwaraeais i erioed mewn gêm derfynol. Erioed. Rho'r cyfle imi.”

Daeth y geiriau allan ar garlam. Yna gwisgodd ei gap eto ac aros.

Yr eiliad honno, chwythodd y dyfarnwr am hanner amser.



4

Rhydd i Bawb ei Gyfle

“Mae’n rhaid dy fod ti o dy go’ Gruff,” meddai Sam. “Sbïa arno. Mae’n ymddangos o ’nunlle yn nhrafars ei nain ac rwyd ti am iddo chwarae yn y gôl.”


“Ond does dim gôli gennym ni,” dadleuais. “Rydyn ni’n mynd i gael crasfa beth bynnag. Beth sydd gennym ni i’w golli?”

“Deg gôl arall,” meddai Nasser.

Tynnais y siwmpwr werdd.

“Wel, pwy sy’n mynd i chwarae yn y gôl am yr ail hanner ’te? Dwi wedi gwneud fy rhan.”

Thynnodd neb y siwmpwr oddi wrthyf i. Edrychon ni i gyd ar Dad. Roedd y cyfan yn ei ddwylo e.



Syllodd draw at Siorts Llac a safai
y chydig oddi wrthon ni, yn sboncio ei hen
bêl ledr.

“Rhydd i bawb ei gyfle,” meddai Dad.


Daeth Dewi Di-glem o’r cae er mwyn i
Siorts Llac ddod ymlaen fel eilydd.

Gallwn weld tîm Sêr y Cwm yn cilwenu
wrth i Siorts Llac ddod i’r cae.



Rhedodd heibio iddyn nhw, ei siorts yn
siglo yn y gwynt a’i gap wedi’i dynnu’n
isel dros ei lygaid.

Daeth Gari Spenser ata i wrth inni
gymryd ein lle ar gyfer y gic gychwynnol.




“Ble dest ti o hyd iddo fe ’te? Bargaen
yn Tesco?” cilwenodd.

Rhythais yn ôl arno’n oeraidd.
Roeddwn i wedi cael llond bol. O’r gorau,
roedd ein tîm yn destun sbort. Roedden
ni’n mynd i golli. Ond o leia gallen ni roi
cyfrif da ohonom ein hunan.

O'r gic gychwynnol, pasiodd Sami ata i. Ffrwydrais drwy'r canol. Doedd Sêr y Cwm ddim yn barod ar gyfer ymosodiad ac roedd fy mhas wedi cyrraedd Nasser yn y cwrt cosbi.

Saethodd yn syth bin, yn isel i mewn i'r gornel. Gôl! 2-1.



Dyna'r cychwyn roedd arnom ni ei angen er mwyn ailgydio yn y gêm. Ond hefyd siglodd e Sêr y Cwm yn effro.

Yn fuan roedd y bêl ganddyn nhw 'nôl
ar ein hanner ni a cherfiodd Gari Spenser
ei ffordd drwy ein hamddiffyniad.


Gadawodd dri chwaraewr ar y llawr wrth
iddo rasio i mewn i'r cwrt cosbi.

Dim ond Siorts Llac oedd ar ôl
rhyngddo fe a'r gôl.




Edrychodd Spenser i fyny i ddewis ei fan. Roedd hyn yn rhy hawdd. Ond yn yr eiliad honno, daeth Siorts Llac ar garlam o'i linell fel milgi.


Allai Spenser mo'i ddeall. Un funud roedd y bêl ganddo fe. Y funud nesa, roedd Siorts Llac wedi'i chwipio oddi ar ei droed a'i chicio i fyny'r cae.



Cymeradwyodd y dorf fach oedd yn gwylio. Edrychodd Crwydraid Ffosaled ar ei gilydd mewn syndod. Cytunai pawb. Roedd Siorts Llac yn wych.



Am weddill y gêm, ceisiodd Sêr y Cwm ddod o hyd i ffordd o guro ein gôli newydd.



Anelon nhw am y corneli. Saethon nhw ergydion grymus iawn. Ceision nhw ddriblo o'i gwmpas.

Ond roedd Siorts Llac yn gallu darllen meddyliau. Roedd fel petai'n gwybod yn union ble roedd y bêl yn mynd.


Llamodd fel cath gan ei chipio o'r awyr. Rholiodd drosodd, neidio ar ei draed, trybowndio'r bêl ddwywaith a'i chicio i'r gofod.

Â dim ond deng munud ar ôl, llwyddon ni i sgorio gôl i wneud y sgôr yn gyfartal 2-2. Yna, wrth i'r amser dreiglo, digwyddodd y drychineb.



Torrodd Gari Spenser drwyddo eto. Unwaith eto, plymiodd Siorts Llac at ei draed.

Ond y tro hwn, roedd Spenser yn barod amdano. Syrthiodd ar ei hyd dros y gôli. Gorweddodd yn y llaid yn dal ei goes.



“Aaw, reff! Cic gosb!”

Gallai unrhyw un weld ei fod wedi plymio yn fwriadol. Pawb heblaw am y reff. Chwythodd ei chwiban gan bwyntio at y smotyn gwyn.

Roedd coes Spenser yn well mewn
chwinciad. Penderfynodd gymryd y gic
gosb ei hun. Winciodd ar Siorts Llac â
golwg hunanfodddhaus ar ei wyneb.

Ddadleuodd Siorts Llac ddim gyda'r
reff. Ddywedodd e ddim gair o'i ben.
Trodd a mynd 'nôl at ei linell gôl.



Cerddais i ffwrdd at y llinell hanner gan deimlo'n sâl. Tair munud yn weddill. Ac roedden ni'n mynd i golli achos y gic gosb waetha a roddwyd erioed.

Ond wrth i Spenser osod y bêl allwn i ddim atal fy hunan. Dwi bob amser yn adrodd y sylwebaeth i giciau cosb yn fy meddwl.



*Ac mae'r dorff yn fud. Mae Siorts
Llac yn ei gwrcwd ar ei linell.
Mae Spenser yn rhedeg at y bêl. Mae
e'n ei bwrw'n galed, isel i'r gornel...*

*Mae'n... Na! Mae Siorts Llac wedi'i
harbed ag un llaw. Arbediad anhygoel!
Mae Spenser â'i ben yn ei blu.
Mae Siorts Llac yn casglu'r
bêl. Mae e'n ei chicio'n bell i fyny'r cae.
Tuag ataf FI! Help! Ble mae pawb?*

O'n hanner ni cadwais i redeg tuag at y
gôl arall, gan aros i rywun fy nhaclo i.



Ond wnaeth neb. Roedd eu hamddiffyniad wedi'u syfrdanu cymaint â finnau. Ac wrth i'w gôli ddod allan llithrais y bêl heibio iddo fe. Rholiodd hi'n araf dros y llinell. Gôl!




Chwythwyd y chwiban yn fuan wedyn. Roedd Crwydraid Ffosaled wedi ennill y cwpan. 3-2 â gôl hwyr ddramatig gan yr anhygoel Gruff Llwyd. Yn union fel yr oeddwn wedi'i ddarogan.

Heidiodd yr holl dîm o'm cwmpas. Neidion nhw ar fy mhen nes roedden ni i gyd yn rhoio o gwmpas yn y llaid, yn chwerthin.

Roedd Dad yn mynd o gwmpas yn curo cefn pawb. Dwi ddim yn meddwl y gallai gredu'r peth.

Yna roedd yn rhaid inni ffurfio rhes i dderbyn y cwpan. Meddai Sam, "Ble mae Siorts Llac? Dylai e fynd lan yn gynta. Fe oedd seren y gêm."



Edrychon ni o'n cwmpas. Ond allen ni ddim dod o hyd iddo. Wyddai neb ble roedd e wedi mynd. Edrychais 'nôl ar geg y gôl lle roedd e wedi arbed y gic gosb. Doedd neb yna. Dim ond niwlen denau yn llithro i mewn o'r afon.



5

Chwaraewr Rhif 132

Ychydig ddyddiau wedi gêm y cwpan
roeddwn i gartref yn gwyllo'r teledu.
Roedd Dad wrth y bwrdd yn gweithio ar
ei gasgliad o gardiau sigarét.

Mae ganddo lond bocsys o'r hen
gardiau lluniau a gasglodd ei wncwl
flynyddoedd yn ôl. Arnyn nhw roedd pêl-
droedwyr enwog o'r gorffennol â'u gwallt
wedi rhannu yn y canol a'u gwenau'n
ddanheddog.

Sylwais arno'n stopio â glud mewn un llaw a cherdyn yn y llall. Roedd ei wyneb yn llwyd. Roedd e'n rhythu ar rywbeth.

“Beth sydd?” holais.



Heb yngan gair o'i ben, estynnodd y cerdyn oedd yn ei law ata i. Ar y cefn dywedai:

Chwaraewr rhif 132: Billy Mackworth
Gôl-geidwad

Yn ddim ond 17 oed, roedd Mackworth yn gôl-geidwad gwych dros Abertawe. Yn 1947 dylasai fod y chwaraewr ifanca i chwarae yn Wembley. Yn drist bu farw mewn damwain car ychydig ddyddiau cyn y gêm. Ni chwaraeodd erioed mewn gêm gwpan derfynol.




Doedd dim modd dadlau â'r llun.
Edrychai'n hŷn, ond roedd y ddwy glust
dan ei gap llwyd yn dal i sefyll allan fel
dolenni jwg. Syllai'r llygaid i'r pellter yn
ddifrifol.

Siorts Llac oedd e.

Am yr awdur

Ers cyn cof dwi wedi mwynhau dau beth bob amser - ysgrifennu storïau a chwarae pêl-droed! Felly mae *Y Gôli o 'Nunlle* yn cyfuno fy nau brif ddiddordeb.



Yn fachgen roeddwn i wrth fy modd yn edrych ar gasgliad cardiau sigarét fy nhad. Roedd lluniau o adar, hen geir, ac, wrth gwrs, pêl-droedwyr enwog. Dyna sut y ces i'r syniad am Siorts Llac. Meddyliais y byddai'n ddiddorol ysgrifennu stori am bêl-droed gyda dirgelwch ynghlwm wrthi hi.

Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 13:

Pecyn A *Dial Capten Gwaed* gan Paul Shipton
Yr Anghenfil yn y Wardrob gan Paul Shipton
Dan Ddu gan Susan Gates
Ar Drywydd Stori gan Roger Stevens
Esgyrn! gan Paul Shipton
Y Gôli o 'Nunlle gan Alan MacDonald
Y Siarc Slei, Seinlyd gan Tessa Krailing

Pecyn B *Dwi Eisio, Dwi Eisio* gan Paul Shipton
Y Ffisig Ffrwydrol gan Alan MacDonald
Cyfrinach y Gôli gan Paul Shipton
Yn Gynu Na'r Gwyn! gan Paul Shipton
Aros am Aur gan Susan Gates
Y Bwci Bo! gan Michaela Morgan
Sgwad Swigyn gan Paul Shipton

Y Gôli o Nunlle

**“Hei Gruff,” meddai Nasser.
“Wyt ti wedi gweld Siorts
Llac draw fanna? Wyt ti’n
credu ei fod e eisiau gêm?”**

Mae Gruff a’i ffrindiau yn cael eu
sesiwn ymarfer olaf cyn
Gêm Derfynol y Cwpan yn
erbyn Sêr y Cwm. Ond pwy yw’r
bachgen rhyfedd yma sy’n crefu am
gael cyfle? Pam mae e’n loetran o
gwmpas eu gôl?



ISBN 0-86174-506-X



ISBN 0-86174-506-X

DRAKE

9 780861 745067

Brig y Goeden



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 13